Cyngor Osteopathig Cyffredinol

# Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer 2024-25

Y Pwyllgor **Ymchwilio**

Y Pwyllgor **Ymddygiad Proffesiynol**

Y Pwyllgor **Iechyd**

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** **3**

**2. Ein proses Bryderon** **4**
Sgrinwyr 4
Y Pwyllgor Ymchwilio 5
Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 5
Y Pwyllgor Iechyd 6

**3. Esbonio ein proses a'n hamserlenni Addasrwydd i Ymarfer** **7**
Pa mor hir mae ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer yn ei gymryd? 7
Pa mor gyflym ydym ni'n prosesu pryderon? 7
Astudiaeth achos ffuglennol 8

**4. Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2024-2025** **12**
Gwrandawiadau sylweddol 12
Gwrandawiadau adolygu 22

© Cyngor Osteopathig Cyffredinol 2020

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at General Osteopathic Council, Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, London SE1 3LU. .

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn: osteopathy.org.uk/standards/fitness-to-practise

# 1. Cyflwyniad

Mae cynnal diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathig wrth wraidd addasrwydd i ymarfer ac, yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni ystyried ac ymchwilio i bryderon am ymddygiad, cymhwysedd neu iechyd osteopathiaid.

Mae adran Reoleiddio'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn ymdrin ag unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer osteopathiaid ar y Gofrestr.



Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad **Addasrwydd i Ymarfer** yn flynyddol. Yn yr argraffiad hwn rydym yn esbonio sut rydym yn rheoli'r pryderon a dderbyniwn. Rydym yn darparu astudiaeth achos ffuglennol hefyd i ddangos y prif gamau ynghyd â'r amserlen ar gyfer y ffordd y mae achos nodweddiadol yn mynd ymlaen i wrandawiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol lle rhoddwyd cosb hefyd.offesiynol lle rhoddwyd cosb hefyd.

# 2. Ein proses Bryderon

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ddyletswydd o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 i ymchwilio i bryderon am osteopathiaid. Rydym yn derbyn pryderon addasrwydd i ymarfer am osteopathaiaid o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:




- cleifion
- aelodau'r cyhoedd
- cyflogwyr
- osteopathiaid eraill
- atgyfeiriadau gan reoleiddwyr eraill

Pryderon cleifion yw prif ffynhonnell cwynion ynghylch osteopathiaid o hyd. Drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer mae dyletswydd arnom i nodi a yw pryder am osteopath yn fater dilys y mae angen ei ymchwilio. Nod y gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yw diogelu'r cyhoedd ac nid oes bwriad iddynt weithredu fel proses gyffredinol o ddatrys cwynion.

Mae gan y Cyngor dri Phwyllgor Addasrwydd i Ymarfer statudol:

- Y Pwyllgor Ymchwilio
- Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol
- Y Pwyllgor Iechyd

Gall pob un o'n pwyllgorau addasrwydd i ymarfer osod gorchymyn atal dros dro ar osteopath, os ydynt yn teimlo bod angen diogelu'r cyhoedd mewn achos sy'n cynnwys honiadau difrifol.

Mae gorchymyn atal dros dro yn atal cofrestriad yr osteopath tan i ymchwiliad gael ei gynnal a chanlyniad y gwrandawiad.

## Sgrinwyr

Mae'r Adran Reoleiddio'n brysbennu'r holl bryderon a ddaw i law ac yn cynnal asesiad risg cychwynnol i sicrhau nad oes perygl uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd. Rydym yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl ar y cam cychwynnol hwn cyn atgyfeirio'r pryder i 'Sgriniwr' (aelod o Bwyllgor Ymchwilio'r Cyngor sy'n osteopath). Fel rhan o'n gwaith o gasglu gwybodaeth, rydym fel arfer yn gofyn am wybodaeth neu eglurhad ychwanegol gan yr unigolyn sy'n codi'r pryder. Os nad yw'r unigolyn sy'n codi'r pryder yn darparu rhagor o wybodaeth o fewn 42 diwrnod ar ôl i'r cais ddod i law, bydd y pryder yn cael ei atgyfeirio i Sgriniwr gydag argymhelliad i gau ar y sail nad oes digon o ddeunydd ategol perthnasol a chredadwy.

Os bydd yr wybodaeth yn dod i law, caiff yr achos ei drosglwyddo i'r Sgriniwr a fydd yn adolygu'r pryder i benderfynu a yw'n gallu bod yn honiad o dan y Ddeddf Osteopathiaid. Wrth ddod i benderfyniad, gall y Sgriniwr gyfeirio at y '**meini prawf trothwy'** i helpu i benderfynu a yw gweithgaredd y cwynir amdano yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, sef 'ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safon sy'n ddisgwyliedig gan osteopath.'

Os yw'r Sgriniwr yn penderfynu nad oes gan y Cyngor rym i ymchwilio'r pryder, atgyfeirir y mater i Sgriniwr Lleyg i adolygu'r ddogfennaeth a phenderfyniad yr osteopath sy'n Sgriniwr. Os yw'r ddau'n cytuno, gellir cau'r mater. Os ydynt yn anghytuno, yna atgyfeirir y mater i'r Pwyllgor Ymchwilio.

## Y Pwyllgor Ymchwilio

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn cyfarfod yn breifat i ystyried achosion sydd wedi cael eu atgyfeirio gan Sgriniwr. Mae'r Pwyllgor yn ystyried a oes achos i'w ateb yn erbyn yr osteopath dan sylw ac yn ystyried y meini prawf trothwy wrth wneud ei benderfyniad.

Os bydd y Pwyllgor Ymchwilio'n penderfynu nad oes achos i'w ateb, bydd yr achos yn cael ei gau.

Gall y Pwyllgor Ymchwilio benderfynu nad oes ganddo ddigon o wybodaeth er mwyn ystyried y mater yn deg a bydd yn gohirio ystyriaeth er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol.

Os bydd y Pwyllgor Ymchwilio'n penderfynu bod achos i'w ateb, trefnir gwrandawiad gerbron Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol y Cyngor neu, os yw'r mater yn ymwneud ag iechyd osteopath, trefnir gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Iechyd.

## Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Mae'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cynnwys 3 aelod ac mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg. Bydd asesydd cyfreithiol yn bresennol hefyd i gynorthwyo'r Pwyllgor gydag unrhyw faterion cyfreithiol a allai godi yn ystod gwrandawiad.

Cynhelir gwrandawiadau yn gyhoeddus fel arfer, a gall aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol. Fodd bynnag, yn dibynnu ar natur yr achos, efallai y bydd adegau pan fydd rhaid cynnal rhan o'r gwrandawiad neu'r gwrandawiad cyfan yn breifat, er enghraifft lle mae'r gwrandawiad yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag iechyd neu fywyd preifat yr osteopath.

Wrth ystyried achos, mae tri cham i broses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor:

1. **Canfod ffeithiau**

   Bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw'n credu bod y ffeithiau a honnir yn erbyn yr osteopath wedi'u profi. Mae'n bosib y bydd yr osteopath yn cyfaddef i rai o'r ffeithiau ac y bydd anghydfod ynghylch ffeithiau eraill. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y ffeithiau y mae anghydfod yn eu cylch ac yn penderfynu a yw'n fwy tebygol na pheidio eu bod wedi digwydd. 'Cydbwysedd tebygolrwydd' yw'r enw a roddir ar hyn.

   Os na fydd y Pwyllgor yn ystyried bod unrhyw un o'r ffeithiau wedi'u profi, bydd yr achos yn dod i ben. Lle mae'n ystyried bod rhai neu'r cyfan o'r ffeithiau wedi'u profi, bydd y gwrandawiad yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

2. **Canfyddiad ynghylch honiad**

   Unwaith y bydd y canfyddiadau ffeithiol wedi'u cyhoeddi, bydd y ddwy ochr (cyflwynydd achos y Cyngor a'r osteopath) yn cael eu gwahodd i wneud cyflwyniadau ar ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu a yw euogfarn droseddol yn berthnasol (i'w weld yn berthnasol) i ymarfer osteopathi. Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor farnu yn ei gylch ac nid yw'n fater o brawf.

   Bydd y Pwyllgor yn clywed y cyflwyniadau ac yn eu hystyried a bydd yn ymneilltuo'n breifat i ystyried ei ganfyddiadau. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi penderfyniad y Pwyllgor.

3. **Cosbau**

   Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu bod y ffeithiau'n gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol, neu fod euogfarn droseddol yn berthnasol i ymarfer osteopathi, yna bydd yn clywed unrhyw gyflwyniadau ychwanegol gan y ddau barti ynghylch yr honiadau. Bydd yn ystyried cyflwyniadau a wneir gan y naill barti a'r llall hefyd ar y gosb i'w gosod.

   Bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth yn breifat ac yn penderfynu pa gosb i'w gosod. Unwaith y bydd wedi dod i benderfyniad, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r gosb.

   Os yw'r Pwyllgor yn canfod bod honiad yn erbyn osteopath yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, rhaid iddo gosbi'r osteopath yn un o'r pedair ffordd ganlynol:

- rhybudd
- gosod amodau ar ymarfer yr osteopath
- tynnu'r osteopath oddi ar y Gofrestr dros dro
- tynnu'r osteopath oddi ar y Gofrestr yn barhaol


## Y Pwyllgor Iechyd

Dim ond mewn achosion lle mae'n canfod bod amhariad difrifol ar addasrwydd yr osteopath i ymarfer oherwydd ei gyflwr corfforol neu feddyliol y gall y Pwyllgor Iechyd gyflwyno amodau ar ymarfer neu atal dros dro.

Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau pwyllgor yn breifat ac maent yn cynnwys tri aelod:

- Cadeirydd lleyg
- osteopath
- aelod lleyg

Mae asesydd cyfreithiol ac aseswr meddygol yn bresennol hefyd i gynorthwyo'r pwyllgor gydag unrhyw faterion cyfreithiol a meddygol a allai godi yn ystod gwrandawiad.




**Enghraifft o drefniant ystafell gwrandawiad**

# 3. Esbonio ein proses a'n hamserlenni Addasrwydd i Ymarfer



## Pa mor hir mae ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer yn ei gymryd?

Mae pryderon sy’n cael eu hatgyfeirio gan sgrinwyr yn cael eu galw’n ‘achosion’. Os yw achos yn arwain at wrandawiad, ein nod yw dod â’r achos i ben o fewn blwyddyn i’r achos ddod i’n sylw gyntaf. Gall amseroedd amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos. Rydym ni’n derbyn tua 75 o bryderon bob blwyddyn. Ei nod yw ymdrin â’r rhain cyn gynted â phosibl, gan sicrhau safon uchel o ofal i bawb dan sylw.

Adolygir pryder gan sgriniwr o fewn 9 wythnos i'w dderbyn. Mae tua hanner yr achosion a adolygir gan sgriniwr yn cael eu cau heb unrhyw gamau pellach.

Caiff achosion eu hystyried gan y Pwyllgor Ymchwilio o fewn 26 wythnos o dderbyn y pryder. Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn cau 30% o'r achosion y mae'n eu hystyried.

## Pa mor gyflym ydym ni’n prosesu pryderon?

Mae’r tabl isod yn nodi pa mor hir gymerodd hi i achosion gael eu clywed, rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.

| Pwyllgor | Yr amser canolrif rhwng derbyn cwyn a gwneud penderfyniad |
|---|---|
| Pwyllgor Ymchwilio | 41 wythnos (targed yw 26 wythnos) |
| Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol | 67 wythnos (targed yw 52 wythnos) |

Mae'r siart llif isod yn rhoi cynrychiolaeth weledol o achos nodweddiadol dros flwyddyn a'r camau sy'n digwydd o wythnos i wythnos ar ôl i bryder cychwynnol gael ei dderbyn:

## Cam Sgriniwr

| | |
|---|---|
| **Wythnos 1** | Derbyn pryder |
| **Wythnos 1 – 4** | Adolygu, dyrannu, cais am ganiatâd a manylion pellach |
| **Wythnos 5** | Caniatâd a rhagor o fanylion |
| **Wythnos 6-7** | Cynhyrchu pryderon rheoleiddiol, paratoi bwndel a'u hanfon at Sgriniwr |
| **Wythnos 7-8** | Derbyn penderfyniad Sgriniwr |

## Cam Ymchwilio

| | |
|---|---|
| **Wythnosau 8 – 9** | Trefnu datganiad tystion a gofyn am gofnodion |
| **Wythnosau 10 – 12** | Cyfweld y claf, drafftio a chwblhau'r datganiad |
| **Wythnos 13 – 14** | Paratoi deunydd a chyfarwyddo arbenigwr |
| **Wythnos 15** | Derbyn adroddiad arbenigol ac adolygu |
| **Wythnosau 16 – 20** | Paratoi bwndel o dystiolaeth a manylion drafft |
| **Wythnos 21** | Ymateb i fod i gyrraedd yn ôl gan yr osteopath |
| **Wythnosau 22 – 23** | Anfon ymateb yr osteopath at y claf i gael sylwadau |
| **Wythnosau 24 – 25** | Paratoi dalenni blaen a bwndel y Pwyllgor Ymchwilio |
| **Wythnos 26** | Pwyllgor Ymchwilio yn ystyried yr achos |

## Cam Gwrandawiad

| | |
|---|---|
| **Wythnosau 27 – 32** | Paratoi achos ar gyfer gwrandawiad yn unol â Chyfarwyddiadau Achos Safonol |
| **Wythnosau 33 – 37** | Cyflwyno'r achos i'r osteopath a gofyn iddo lenwi holiadur gwrandawiadau. Y Cyngor yn aros am ymateb |
| **Wythnosau 38 – 39** | Adolygu ymateb ac ystyried fformat a hyd gwrandawiad |
| **Wythnos 40** | Gofyn am argaeledd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, aseswyr cyfreithiol, arbenigwyr |
| **Wythnos 41** | Unwaith y bydd argaeledd wedi'i dderbyn, cadarnhau dyddiad y gwrandawiad i bawb |
| **Wythnos 42** | Osteopath yn cyflwyno ymateb i'r adroddiad arbenigol (os yw'n berthnasol) |
| **Wythnosau 43 – 44** | Y Cyngor i drefnu cyfarfod arbenigol (lle bo angen) |
| **Wythnosau 45 – 46** | Mae pob parti yn cysylltu ac yn ceisio cytuno ar gynnwys y bwndeli terfynol |
| **Wythnos 47** | Braslun o'r dadleuon wedi'i greu a bwndeli wedi'u llwytho i fyny ar gyfer y panel |
| **Wythnosau 48 – 49** | Gwrandawiad yn dechrau |
| **Wythnos 50** | Gwrandawiad yn dod i ben |

## Astudiaeth achos ffuglennol

Mae'r astudiaeth achos ffuglennol isod yn rhoi rhagor o fanylion am y gwahanol gamau y gallai achos nodweddiadol fynd drwyddynt wrth iddo fynd ymlaen i wrandawiad terfynol gerbron y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol.

| Cam sgriniwr |
| --- |
| **Mae Claf A yn e-bostio'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol gyda phryder**, gan egluro ei fod wedi mynd i weld osteopath oherwydd poen parhaus yn ei gefn. Mae'n crybwyll bod yr osteopath wedi gofyn iddo ddiosg ei dop a gorwedd wyneb i lawr ar y bwrdd triniaeth yn ystod apwyntiad. Yna aeth yr osteopath ati i roi llawer o bwysau ar gefn Claf A gan ddefnyddio ei benelin. Gofynnodd claf A iddo stopio gan ei fod mewn poen ond fe wnaeth yr osteopath wrthod, gan ddweud "peidiwch â phoeni, dwi'n gwybod be' dwi'n ’neud”. Pan wnaeth y claf gwyno eto, dywedodd yr osteopath "peidiwch â bod yn gymaint o fabi. Fydd yna ddim budd heb boen" a pharhau i bwyso i lawr gyda grym sylweddol. **Ers yr apwyntiad hwnnw, ychydig wythnosau yn ôl, mae Claf A wedi bod mewn llawer o boen ac yn methu cerdded yn iawn**. |
| Mae Swyddog Rheoleiddio yn ffonio Claf A i egluro'r broses ymchwilio. Mae'n egluro y gallai fod angen i ni gymryd datganiad tyst maes o law, yn ogystal â thynnu sylw at y ffaith y bydd angen datgelu manylion y pryder i'r osteopath. Mae Claf A yn cytuno ac yn llenwi ffurflen bryder a chydsynio. |
| Mae'r Swyddog Rheoleiddio yn llenwi ffurflen rheoli achos ac asesu risg fewnol, gan nodi bod Claf A wedi dweud ei fod wedi ysgrifennu'n uniongyrchol at y practis i gwyno ond ei fod yn anhapus gyda'u hymateb. Mae'r Swyddog Rheoleiddio yn gofyn i Glaf A am gopi o'r ohebiaeth honno. Mae'r pryder yn cael ei baratoi ac anfonir y papurau at Sgriniwr **(aelod o'r Pwyllgor Ymchwilio sy’n osteopath) a fydd yn adolygu'r pryder ac yn ystyried a all y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ymchwilio**. |

| Cam Ymchwilio |
|---|
| Penderfyniad y Sgriniwr yw atgyfeirio'r achos i'r Pwyllgor Ymchwilio i benderfynu a oes **achos i'w ateb**. Dyma pryd yr hysbysir yr osteopath bod pryder wedi'i godi amdano, ac mae Claf A yn derbyn diweddariad hefyd. |
| Mae'r Swyddog Rheoleiddio yn ymchwilio ac yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol gan gynnwys nodiadau Claf A gan yr osteopath, sy'n cael eu hanfon at gynghorydd clinigol. |
| Mae'r ymgynghorydd clinigol yn argymell gofyn i Glaf A am eglurhad pellach ynghylch cyfathrebu cyn triniaeth, gan **nad yw'n glir o'r nodiadau a wnaeth yr osteopath esbonio beth oedd yn mynd i'w wneud cyn rhoi triniaeth**. |
| Yna bydd y Swyddog Rheoleiddio yn cymryd datganiad tyst ac yn gweithio gyda Chlaf A i ddiwygio'r datganiad nes iddo fod yn hapus ac yn barod i'w lofnodi. Cyfarwyddir y **tyst arbenigol i ddarparu adroddiad ynghylch a oedd yr osteopath yn cyrraedd y safon a ddisgwylir gan osteopath rhesymol gymwys wrth drin Claf A**. |
| Mae'r Swyddog Rheoleiddio'n adolygu'r ffeil ac yn paratoi 'bwndel' o'r dystiolaeth sy'n cynnwys y nodiadau osteopathig, datganiad tyst Claf A a'r adroddiad arbenigol. Mae'n dileu unrhyw wybodaeth bersonol ac yn cwblhau manylion yr honiad. |
| Anfonir yr honiad a'r bwndel at yr osteopath, a rhoddir 28 diwrnod iddo ymateb. **Mae'r osteopath yn gwadu'r honiad** ac mae ei ymateb yn cael ei anfon at Glaf A i wneud sylwadau cyn pen 14 diwrnod. |
| Mae'r achos yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio wedyn yn ei gyfarfod nesaf ac mae'r pwyllgor yn penderfynu a oes achos i'w ateb, felly maen nhw'n ei atgyfeirio i'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer gwrandawiad. |

| Cam y gwrandawiad |
|---|
| **O dan ein cyfarwyddiadau achos safonol, mae'r achos yn cael ei gyflwyno i'r osteopath** a gofynnir iddo gwblhau holiadur rhestru, gan ddarparu dyddiadau y bydd ar gael ar gyfer gwrandawiad, manylion unrhyw dystion y mae'n bwriadu eu galw, ac unrhyw ddadleuon rhagarweiniol y mae'n bwriadu eu gwneud. |
| Gofynnir i glaf A a'r tyst arbenigol gadarnhau eu bod ar gael i roi tystiolaeth yn y gwrandawiad os oes angen. |
| Mae'r gwrandawiad wedi'i restru am bedwar diwrnod a rhoddir rhybudd i'r partïon. Bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal o bell yn unol â'n **Canllawiau a Phrotocol: Gwrandawiadau o Bell**. |
| Derbynnir ymateb yr osteopath gan ei gynrychiolydd cyfreithiol. Nid yw'n derbyn ei fod wedi parhau gyda thriniaeth yn groes i ddymuniadau Claf A, mae'n gwadu iddo ddweud "peidiwch â bod yn gymaint o fabi, fydd yna ddim budd heb boen". |
| Mae'r Swyddog Rheoleiddio'n cysylltu â Chlaf A i egluro y bydd angen iddo fynd i'r gwrandawiad fel tyst oherwydd bod anghytundeb ynghylch ei dystiolaeth. Ar ôl gohebiaeth rhwng cynrychiolydd yr osteopath a'r Cyngor, cytunir ar fwndel y gwrandawiad. |
| Mae'r 'braslun o'r dadleuon', sef y dogfennau ysgrifenedig a ddarparwyd cyn gwrandawiad, yn crynhoi'r materion i fynd i'r afael â nhw o safbwynt y Cyngor a'r osteopath. |
| Caiff y rhain eu cyfnewid a darperir y papurau i aelodau panel y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a'u haseswr cyfreithiol cyn y gwrandawiad, drwy Caselines, (y system ar-lein ar gyfer paratoi a chyflwyno tystiolaeth). |
| Cynhelir y gwrandawiad ac **mae'r Pwyllgor yn penderfynu rhoi 'gorchymyn amodau ymarfer' i'r osteopath am ddwy flynedd** ar ôl canfod bod sail dda i'r honiad. Mae'r Pwyllgor yn darparu'r rhesymau ysgrifenedig dros eu penderfyniad i'r osteopath a'r Cyngor. |
| Wrth ddod i benderfyniad, mae'r Pwyllgor yn ystyried y **Safonau Ymarfer Osteopathig** a'r **Canllawiau Gwrandawiadau a Chosbau**. |
| Mae gan yr osteopath a'i gynrychiolwyr 28 diwrnod i apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y penderfyniad. Anfonir penderfyniad y Comisiynydd at yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd, sy'n adolygu pob penderfyniad terfynol a wneir gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a gall apelio yn erbyn y penderfyniad os yw'n penderfynu nad yw'r gosb yn ddigonol er mwyn diogelu'r cyhoedd. |
| **Ar ôl i sgriniwr sgrinio'r pryder, cafodd yr osteopath ei gyfeirio gan y Cyngor at y Gwasanaeth Cymorth Annibynnol**, a ddarperir gan Cymorth i Ddioddefwyr sydd wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor ers sawl blwyddyn i **ddarparu cymorth cyfrinachol** i gleifion, tystion ac osteopathiaid sy'n mynd trwy'r broses addasrwydd i ymarfer. |
| Gall osteopathiaid sy'n rhan o ymchwiliad addasrwydd i ymarfer e-bostio'r Gwasanaeth Cymorth Annibynnol yn uniongyrchol drwy e-bostio **medicalcouncils@victimsupport.org.uk** neu ffonio 0300 303 1964. Mae'r llinell gymorth ar agor ddydd a nos, gydol y flwyddyn. |

# 4. Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2024-2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwrandawiadau sylweddol a gwblhawyd gan Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Osteopathiaid 1993, Adrannau 22(13) a (14), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiad sy'n nodi enwau'r osteopathiaid hynny y mae wedi ymchwilio i honiadau yn eu cylch ac wedi canfod bod sail dda i'r honiadau hynny. Mae materion sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer osteopathiaid yn rhan annatod o ddyletswydd y Cyngor i reoleiddio'r proffesiwn a thrwy hynny amddiffyn y cyhoedd ac enw da'r proffesiwn. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn adnodd gwerthfawr i osteopathiaid ynghylch safonau ymddygiad uchel a'r hyfedredd sydd ei angen i gynnal cofrestriad fel osteopath.

## Gwrandawiadau sylweddol

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Amine El-Bacha | 20 Mehefin 2024 | Claf | Dileu cofrestriad | Cafwyd Mr Amine El-Bacha yn euog yn y Deyrnas Unedig o drosedd, sef:<br>1. Ar 30 Mehefin 2023, yn Llys y Goron Harrow, cafodd Mr El-Bacha ei roi o flaen ei well a'i gael yn euog ar dditiad o dri achos o ymosodiad rhywiol yn erbyn Claf C.<br>2. Dyma gosb Mr El-Bacha am y troseddau a nodir uchod:<br>a. fe'i dedfrydwyd i dair blynedd o garchar;<br>b. rhaid iddo gofrestru ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw am gyfnod amhenodol;<br>c. bydd yn destun Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol nes gwneir gorchymyn pellach o dan adran 103 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2023;<br>d. gorchmynnwyd iddo dalu gordal dioddefwr o £170. |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Michelle Davies | 04 Mehefin 2024 | Cofrestrydd | Dileu cofrestriad | 1. Rhwng 4 Mai 2021 a 3 Hydref 2021, cyflwynodd Ms Davies i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol nifer o ddogfennau a hawliadau a oedd yn aneglur a/neu'n annarllenadwy.<br>2. Methodd Ms Davies â rhoi cydsyniad i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar gyfer cael gafael ar gofnodion meddygol, yn dilyn ceisiadau a wnaed ar:<br>a. 8 Gorffennaf 2021<br>b. 26 Gorffennaf 2021<br>c. 2 Awst 2021<br>d. 17 Awst 2021<br>3. Methodd Ms Davies â rhoi cydsyniad i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, yn dilyn cais a wnaed ar 17 Awst 2021, ar gyfer cynnal asesiad meddygol i benderfynu a yw'n addas i ymarfer.<br>Cafwyd Ms Davies yn euog yn y Deyrnas Unedig o drosedd, sef ei bod, ar 3 Hydref 2022, yn Llys Ynadon Kidderminster, wedi ei chael yn euog naill ai'n benodol neu drwy oblygiad o ddisgrifio ei hun fel osteopath pan oedd wedi'i hatal o'r gofrestr osteopathiaid, yn groes i adran 32 o Ddeddf Osteopathiaid 1993. |
| Romilly Jarrett | 3 Gorffennaf 2024 | Claf | Cerydd | Aeth Claf A i saith apwyntiad gyda Ms Jarrett ar y dyddiadau canlynol:<br>30 Tachwedd 2021 ("Apwyntiad 1")<br>7 Rhagfyr 2021 ("Apwyntiad 2")<br>8 Ionawr 2022 ("Apwyntiad 3")<br>22 Ionawr 2022 ("Apwyntiad 4")<br>29 Ionawr 2022 ("Apwyntiad 5")<br>12 Chwefror 2022 ("Apwyntiad 6") |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 12 Mawrth 2022 ("Apwyntiad 7") yn yr Halos Clinic rhwng 30 Tachwedd 2021 a 12 Mawrth 2022.<br>1. Yn ystod apwyntiad 5 a/neu Apwyntiad 6 a/neu Apwyntiad 7, fe wnaeth Ms Jarrett y canlynol:<br>a. rhoi triniaeth nodwyddau sych i Glaf A ("y Driniaeth"); a<br>b. methu â chael cydsyniad dilys gan Glaf A ar gyfer y Driniaeth.<br>2. Yn ystod apwyntiad 7, methodd Ms Jarrett â rhoi gofal osteopathig diogel i Glaf A, oherwydd iddi roi'r nodwyddau i mewn yn rhy ddwfn yn y rhan uchaf o thoracs Claf A yn ystod y driniaeth.<br>3. Yn dilyn Apwyntiad 7, adroddodd Claf A am arwyddion a symptomau, ond methodd Ms Jarrett â gwneud y canlynol:<br>a. adnabod arwyddion a symptomau niwmothoracs<br>b. cyfeirio Claf A i'r ysbyty ar unwaith am driniaeth frys. |
| Annette Weir | 10 Mehefin 2024 | Claf | Cerydd | Aeth Claf A i bedwar apwyntiad gyda Ms Weir ar y dyddiadau canlynol:<br>(a) 29 Medi 2022 ("Apwyntiad 1")<br>(b) 03 Hydref 2022 ("Apwyntiad 2")<br>(c) 11 Hydref 2022 ("Apwyntiad 3")<br>(d) 31 Hydref 2022 ("Apwyntiad 4")<br>2. Yn ystod Apwyntiad 2:<br>(a) cynghorodd Ms Weir Glaf A i ddal i symud; |

**Pwynt dysgu: Cydsyniad a Chyfathrebu: pwyntiau dysgu**

- Rhaid i gydsyniad fod yn glir, yn wybodus, yn ddilys a phenodol, rhaid dweud wrth gleifion beth yn union yw'r driniaeth, pam ei bod yn cael ei rhoi, a beth yw'r risgiau perthnasol;
- Dylid hyd yn oed ddatgelu risgiau prin ond difrifol;
- Proses barhaus ydy cydsyniad, nid sgwrs unwaith ac am byth.
- Mae'n hanfodol cofnodi'r cydsyniad.

**Safonau Ymarfer Osteopathig Allweddol:**
A3, A4

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (b) dywedodd Ms Weir wrth Glaf A "y byddwch yn gwneud mwy o ddrwg nag o les os rhowch y gorau i wneud ymarfer corff", neu eiriau i'r perwyl hwnnw;<br>(c) bu i Ms Weir ymddwyn fel hyn yn 2(a) a 2(b) uchod ar ôl i Glaf A ddweud wrthi ei bod weithiau'n boenus iddi symud o gwmpas;<br>(d) ni wnaeth Ms Weir ystyried a/na chofnodi diagnosis posibl o ysigo fertebrol;<br>(e) ni chyfeiriodd Ms Weir Glaf A am archwiliad delweddu diagnostig yng ngoleuni'r diagnosis posibl hwn.<br>3. Yn ystod Apwyntiad 3, gwnaeth Ms Weir y canlynol:<br>(a) dweud wrth Glaf A - "os na fyddwch chi'n gwneud ymarfer corff, byddwch chi'n gwneud mwy o ddrwg nag o dda", neu eiriau i'r perwyl hwnnw;<br>(b) gofyn i Glaf A wneud ymarfer a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddi groesi ei breichiau dros ei brest, pwyso ymlaen cyn belled ag y bo modd, ac aros yn yr ystum hwnnw am ychydig eiliadau;<br>(c) cynghori Claf A i wneud yr ymarfer y cyfeirir ato yn 3(b) bob dydd.<br>4. Yn ystod Apwyntiad 4, gwnaeth Ms Weir y canlynol:<br>(a) gofyn i Claf A wneud ymarfer a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddi gyrcydu a gwthio ei phen-ôl tuag allan;<br>(b) cynghori Claf A i wneud yr ymarfer y cyfeirir ato yn 4(a) bob dydd. |

**Pwynt dysgu: Dyletswydd Gonestrwydd a chyfathrebu'n briodol ac yn amserol ar ôl digwyddiad**

Rhaid i osteopathiaid:

- Gydnabod pan fydd pethau'n mynd o chwith
  - Cynghori cleifion yn briodol ac yn brydlon
  - Sicrhau dilyniant
  - Darparu gwybodaeth glir a sicrhau bod y claf yn deall difrifoldeb symptomau

**Safonau Ymarfer Osteopathig Allweddol:** D3

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 5. Yn ystod Apwyntiad 3 ac Apwyntiad 4, cynghorodd Ms Weir Glaf A i ddal i wneud yr ymarferion a nodir ym mharagraffau 3(b) a 4(a) ar ôl i Glaf A ddweud wrthi ei fod yn boenus iddi.<br>6. Anfonodd Glaf A neges destun at Ms Weir ar 4 Tachwedd 2022, a methodd Ms Weir ag ymateb iddi mewn modd rhesymol ac amserol, er ei bod yn gwybod bod Claf A mewn poen.<br>7. Yng nghofnodion clinigol Claf A:<br>(a) ar gyfer Apwyntiad 1, methodd yr Unigolyn Cofrestredig â chofnodi:<br>(i) yr archwiliad;<br>(ii) diagnosis digonol;<br>(iii) cynllun triniaeth.<br>(b) ar gyfer Apwyntiad 2, methodd Ms Weir â chofnodi cynllun triniaeth;<br>(c) ar gyfer Apwyntiad 3 a/neu 4, methodd yr Unigolyn Cofrestredig â chofnodi:<br>(i) yr asesiad<br>(ii) cynllun triniaeth.<br>8. Roedd ymddygiad Ms Weir, fel a nodir ym mharagraff 2 a/neu 3 a/neu 4 a/neu 5 a/neu 6 a/neu 7 yn amhriodol.<br>9. O safbwynt ymddygiad Ms Weir, fel a nodir ym mharagraffau 2(a) a/neu 2b a/neu 3 a/neu 4 a/neu 5:<br>(a) nid oedd cyfiawnhad clinigol drosto;<br>(b) nid oedd er lles gorau Claf A. |

**Pwynt dysgu: Mae cadw cofnodion cywir ac amserol yn rhan allweddol o ymarfer diogel a chymwys.**

- Rhaid cadw cofnod digonol o'r ymresymu clinigol, y cydsyniad, y technegau a ddefnyddir, a'r holl ystyriaethau am ddigwyddiadau niweidiol.

**Safonau Ymarfer Osteopathig Allweddol:**

C2 - cofnodion cynhwysfawr a chywir

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Martin Morris | 1 Awst 2024 | Claf | Atal dros dro | Aeth Claf A i un apwyntiad gyda Mr Morris ar 6 Ebrill 2023 (yr Apwyntiad)<br>1. Yn ystod yr apwyntiad, rhoddodd Mr Morris hyrddiad ar gyflymder uchel i drin asgwrn cefn thorasig a/neu gymal asen i Glaf A, a chlywyd 's□n clec' uchel.<br>2. Methodd Mr Morris â chael cydsyniad dilys gan Glaf A cyn gwneud y driniaeth.<br>4. Roedd ymddygiad Mr Morris:<br>a. yn mynd yn groes i'r hyn y cynghorir yn ei erbyn;<br>b. yn amhriodol. |
| Steven Tongue | 5 Medi 2024 | Claf | Cerydd | 1. Aeth Claf A i apwyntiadau gyda Mr Tongue ar y dyddiadau canlynol:<br>a. 28 Chwefror 2023 (Apwyntiad 1)<br>b. 17 Mawrth 2023 (Apwyntiad 2)<br>c. 12 Ebrill 2023 (Apwyntiad 3)<br>d. 19 Mai 2023 (Apwyntiad 4)<br>2. Yn ystod Apwyntiad 1 a/neu Apwyntiad 2 a/neu Apwyntiad 3 a/neu Apwyntiad 4, methodd Mr Tongue â chyfathrebu'n broffesiynol a/neu'n gwrtais a/neu'n ystyriol â Chlaf A, ac, yn gryno, fe wnaeth y canlynol:<br>• rhannu gwybodaeth bersonol am ei fywyd preifat gyda Chlaf A;<br>• rhannu â Chlaf A wybodaeth bersonol am ei fywyd teuluol a'i berthynas â'i dad;<br>• siarad â Chlaf A am bedoffeil a gafwyd yn euog;<br>• dweud wrth Glaf A ei fod wedi cael cyfnod seicotig yn y gorffennol ac wedi bod eisiau lladd ei rieni; |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • dweud wrth Glaf A y gallai ddweud pan oedd rhywun yn hoyw gan wneud y sylw 'Maen nhw’n dod yma drwy'r amser, yn esgus bod yn strêt ond rydw i'n gwybod eu bod nhw'n hoyw", neu eiriau i'r perwyl hwnnw;<br>• holi Claf A am yr achos llys yr oedd ynghlwm ag o ac a oedd y barnwr yn 'ddyn, yn fenyw ynteu'n nhw', neu eiriau i'r perwyl hwnnw.<br>Yn ystod Apwyntiad 4, methodd Mr Tongue â pharchu hawliau cleifion i breifatrwydd a chyfrinachedd a chynnal a diogelu gwybodaeth cleifion yn effeithiol, gan ei fod wedi rhannu gwybodaeth breifat gyfrinachol am glaf arall gyda Chlaf A. |
| Martin Grundy | 27 Mawrth 2025 | Claf | Cerydd | 1. Aeth Claf A i un apwyntiad (yr Apwyntiad) gyda Mr Grundy ar 9 Medi 2022 (yr Apwyntiad)<br>2. Yn yr Apwyntiad, gwnaeth Mr Grundy y canlynol:<br>a. dweud wrth Glaf A ei fod yn mynd i archwilio llawr ei phelfis; a/neu<br>b. llithro ei law o dan ei dillad isaf ac ar asgwrn ei harffed; a/neu;<br>c. dweud wrth Glaf A "Gallwn wneud hyn drwy [ei] dillad, ond mae'n well gen i gysylltiad croen wrth groen", neu eiriau i'r perwyl hwnnw; a/neu<br>e. gwneud sŵn tuchan a/neu ochneidio uchel pan oedd yn cyffwrdd Claf A;<br>f. methu â gofyn i Glaf A a hoffai gael hebryngwr yn bresennol; a/neu<br>g. methu â chael cydsyniad dilys gan Glaf A. |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 3. Roedd ymddygiad Mr Grundy<br>a. yn amhriodol;<br>b. yn amhroffesiynol;<br>c. ddim er lles gorau Claf A;<br>d. wedi tramgwyddo'r ffiniau proffesiynol. |
| Marek Kolarik | 28 Hydref 2024 | Cwmni yswiriant | Cerydd | 1. O 3 Gorffennaf 2023 ymlaen hyd at a gan gynnwys 13 Gorffennaf 2023 (y Cyfnod Perthnasol), roedd Mr Kolarik:<br>(a) yn gofrestredig ac yn ymarfer fel osteopath;<br>(b) wedi methu â chael a chynnal yswiriant fel sy'n ofynnol gan Reol 3 o Orchymyn Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Trefniadau Indemniad) 2015 ("y Gorchymyn").<br>2. Yn ystod y Cyfnod Perthnasol, wrth gyflwyno'i hun i'r cyhoedd fel osteopath cofrestredig, roedd Mr Kolarik yn gwybod, ei bod yn ofynnol iddo gael yswiriant indemniad proffesiynol.<br>3. Rhwng 04 Gorffennaf 2023 a hyd at a gan gynnwys 12 Gorffennaf 2023, roedd Mr Kolarik wedi trin cleifion er nad oedd ganddo yswiriant indemniad proffesiynol priodol, a'i fod drwy hynny'n gweithredu er anfantais bosibl i'r cyfryw gleifion ac yn eu rhoi mewn perygl.<br>4. Roedd ymddygiad Mr Kolarik ym mharagraff 1b, a 3 uchod:<br>(a) yn gamarweiniol; a<br>(b) yn dangos diffyg gonestrwydd. |

**Pwynt dysgu: Yswiriant Indemniad Proffesiynol: pwyntiau dysgu**

Mae gan osteopathiaid ddyletswydd i sicrhau bod ganddynt Yswiriant indemniad proffesiynol ar waith bob amser.

- Os bydd osteopath yn sylweddoli bod ei yswiriant wedi dod i ben, rhaid iddo roi gwybod i'w ddarparwr yswiriant ar unwaith a rhoi gwybod i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
- Dylai osteopathiaid fod yn agored ac yn onest pan fyddant yn gwneud camgymeriad neu pan fydd pethau'n mynd o chwith gan fod yswiriant indemniad yn sail i'w gonestrwydd a'u proffesiynoldeb fel osteopath.
- Os bydd osteopathiaid yn cael gohebiaeth gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gofyn am brawf o'i yswiriant indemniad proffesiynol, mae'n hanfodol eu bod yn ymateb ac yn ymgysylltu â ni.
- Dylai osteopathiaid gynnal eu system eu hunain i fonitro dyddiadau adnewyddu a pheidio â dibynnu ar eu cwmni yswiriant.

**Safonau Ymarfer Osteopathig Allweddol:** D1

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Tanya May | 30 Medi 2024 | Cofrestrydd | Cerydd | 1. Rhwng 17 Ebrill 2023 a 22 Awst 2023, gan gynnwys y ddau ddyddiad ('y Cyfnod Perthnasol'), roedd Ms May:<br>a. yn gofrestredig a/neu yn ymarfer fel osteopath; a<br>b. wedi methu â chael a chynnal yswiriant fel sy'n ofynnol gan Reol 3 o Orchymyn Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Trefniadau Indemniad) 2015 ("y Gorchymyn").<br>2. Yn ystod y Cyfnod Perthnasol, roedd Ms May:<br>a. yn gwybod, wrth gyflwyno'i hun i'r cyhoedd fel osteopath cofrestredig, ei bod yn ofynnol iddi gael yswiriant indemniad proffesiynol; a/neu<br>b. wedi trin cleifion er nad oedd ganddi yswiriant indemniad proffesiynol priodol, a'i bod drwy hynny'n gweithredu er anfantais bosibl i'r cyfryw gleifion ac yn eu rhoi mewn perygl.<br>3. Roedd ymddygiad Ms May ym mharagraff 1(b) a pharagraff 2(b):<br>a. yn gamarweiniol; a<br>b. yn dangos diffyg gonestrwydd. |
| Anthony Albertini | 15 Hydref 2024 | Cofrestrydd | Cerydd | 1. Rhwng 7 Chwefror ac 8 Chwefror 2023, gan gynnwys y ddau ddyddiad ('y Cyfnod Perthnasol'), fe wnaeth Mr Albertini y canlynol:<br>a. roedd yn gofrestredig a/neu yn ymarfer fel osteopath; a |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | b. roedd wedi methu â chael a chynnal yswiriant fel sy'n ofynnol dan Reol 3 o Orchymyn Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Trefniadau Indemniad) 2015 ('y Gorchymyn');<br>2. Yn ystod y Cyfnod Perthnasol, roedd Mr Albertini:<br>a. yn gwybod, wrth gyflwyno'i hun i'r cyhoedd fel osteopath cofrestredig, ei bod yn ofynnol iddo gael yswiriant indemniad proffesiynol; a/neu<br>b. wedi trin cleifion er nad oedd ganddo yswiriant indemniad proffesiynol priodol, a'i fod drwy hynny'n gweithredu er anfantais bosibl i'r cyfryw gleifion ac yn eu rhoi mewn perygl;<br>3. Roedd ymddygiad Mr Albertini fel y nodir ym mharagraff 1(b) a pharagraff 2(b):<br>a. yn gamarweiniol; a<br>b. yn dangos diffyg gonestrwydd. |
| Daniel Kalman | 27 Medi 2024 | Cofrestrydd | Cerydd | 1. Rhwng 7 Mai 2023 ac 8 Tachwedd 2023, gan gynnwys y ddau ddyddiad ('y Cyfnod Perthnasol'), fe wnaeth Mr Albertini y canlynol:<br>a. roedd yn gofrestredig a/neu yn ymarfer fel osteopath; a<br>b. roedd wedi methu â chael a chynnal yswiriant fel sy'n ofynnol gan Reol 3 o Orchymyn Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Trefniadau Indemniad) 2015 ("y Gorchymyn"); |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 2. Yn ystod y Cyfnod Perthnasol, roedd Mr Albertini:<br>a. yn gwybod, wrth gyflwyno'i hun i'r cyhoedd fel osteopath cofrestredig, ei bod yn ofynnol iddo gael yswiriant indemniad proffesiynol; a/neu<br>b. wedi trin cleifion er nad oedd ganddo yswiriant indemniad proffesiynol priodol, a'i fod drwy hynny'n gweithredu er anfantais bosibl i'r cyfryw gleifion ac yn eu rhoi mewn perygl.<br>3. Roedd ymddygiad Mr Kalman ym mharagraff 1(b) a/neu baragraff 2(b):<br>a. yn gamarweiniol; a<br>b. yn dangos diffyg gonestrwydd. |
| Rachel Jennings | 30 Medi 2024 | Cofrestrydd | Cerydd | 1. Rhwng 1 Mai 2022 a 21 Ionawr 2024, gan gynnwys y ddau ddyddiad ('y Cyfnod Perthnasol'), fe wnaeth Ms Jennings y canlynol:<br>a. roedd yn gofrestredig a/neu yn ymarfer fel osteopath; a<br>b. roedd wedi methu â chael a chynnal yswiriant fel sy'n ofynnol gan Reol 3 o Orchymyn Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Trefniadau Indemniad) 2015 ("y Gorchymyn");<br>2. Yn ystod y Cyfnod Perthnasol, roedd Ms Jennings:<br>a. yn gwybod, wrth gyflwyno'i hun i'r cyhoedd fel osteopath cofrestredig, ei bod yn ofynnol iddi gael yswiriant indemniad proffesiynol; a/neu |

| Osteopath | Dyddiad y penderfyniad | Ffynhonnell y gŵyn | Canlyniad | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | | b. wedi trin cleifion er nad oedd ganddi yswiriant indemniad proffesiynol priodol, a'i bod drwy hynny'n gweithredu er anfantais bosibl i'r cyfryw gleifion ac yn eu rhoi mewn perygl.<br>3. Ar 2 Awst 2023, datganodd Ms Jennings drwy dwyll wrth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol drwy ei ffurflen adnewyddu ar-lein fod ganddi drefniant indemniad a oedd yn bodloni gofynion y Gorchymyn.<br>4. Mae ymddygiad Ms Jennings fel y nodir ym mharagraff 1(b) a/neu baragraff 2(b) a/neu 3:<br>a. yn gamarweiniol; a<br>b. yn dangos diffyg gonestrwydd. |

## Gwrandawiadau adolygu

| Osteopath | Dyddiad yr adolygiad | Gorchymyn sy'n gofyn am adolygiad | Canlyniad yr adolygiad |
|---|---|---|---|
| Martin Morris | 24 Ionawr 2025 | Amodau ymarfer | Ni wnaed gorchymyn arall. Daw'r Gorchymyn amodau ymarfer i ben ar ddiwedd y cyfnod. |

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

**Cyngor Osteopathig Cyffredinol**
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU

info@osteopathy.org.uk
020 7357 6655
**osteopathy.org.uk**

Mae'r GOsC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1172749)